Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru | South Wales Fire and Rescue Service

# CYDLYNYDD DIOGELWCH IECHYD A LLESIANT

## GRADD 8: CYFLOG £38,223 - £39,186
## 37 AWR YR WYTHNOS
## Rhif y Swydd: 504444

Mae'r swydd wag barhaol uchod wedi codi yn yr Adran Rheoli Risg Weithredol, Pencadlys Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru, Parc Busnes Forest View, Llantrisant, CF72 8LX. Bydd deiliad y swydd yn cynorthwyo'r Rheolwr Iechyd, Diogelwch a Lles i gynnal Tîm sy'n darparu cyngor iechyd, diogelwch a lles arbenigol a chefnogaeth ymarferol ar draws y Gwasanaeth.

Dyletswyddau allweddol y rôl: -

- Yn dirprwyo ar ran y Rheolwr yn eu habsenoldeb, cymryd cyfrifoldeb am y Swyddogion Iechyd, Diogelwch a Lles a'r Gweinyddwr Iechyd, Diogelwch a Lles.
- Cynnal Archwiliadau Iechyd a Diogelwch yn fewnol a lle bo'n briodol, cydweithio â gwasanaethau grŵp cymheiriaid, adrodd a gweithredu argymhellion lle bo'n berthnasol.
- Cynrychiolaeth gan y Gwasanaeth ar weithgorau a phaneli mewnol ac allanol yn lleol ac yn genedlaethol, gan ei gwneud yn ofynnol i'r ymgeisydd llwyddiannus deithio'n annibynnol gan ddefnyddio trafnidiaeth y Gwasanaeth.
- Darparu argaeledd hyblyg ar gyfer cynnal gweithgareddau iechyd a diogelwch gyda'r nos ac ar benwythnosau i gefnogi gofynion ein gwasanaeth brys 24/7.

Noder: Mae sgiliau Iaith Gymraeg yn ddymunol ar gyfer y swydd hon ond nid yn hanfodol.

I gael gwybod mwy am y swydd hon, cysylltwch â'r Rheolwr Iechyd, Diogelwch a Lles, Dave Cottrell drwy e-bost: d-cottrell@decymru-tan.gov.uk neu drwy ffonio: 01443 232034.

Rydym yn sefydliad sy'n gyfeillgar i deuluoedd, ac mae system gweithio hyblyg mewn grym. I weld manteision gweithio gyda ni, ewch i: https://www.decymru-tan.gov.uk/gweithio-gyda-ni/buddion/

Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn amodol ar wiriad cofnod troseddol sylfaenol boddhaol gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd a bydd gofyn iddo/iddi ymgymryd â Phrawf Cyffuriau ac Alcohol cyn gwneir penodiad.

Gwahoddir ceisiadau gan ymgeiswyr sydd â phrofiad a chymwysterau priodol yn unol ag amlinelliad y Fanyleb Person. Sylwch fod hon yn broses hynod gystadleuol a dim ond y rhai sydd wedi dangos tystiolaeth lawn yn erbyn yr holl feini prawf hanfodol ar y fanyleb person fydd yn mynd ymlaen i'r Broses Ddethol. Mae sgiliau Iaith Gymraeg yn ddymunol ar gyfer y swydd hon ond nid yn hanfodol.

Y dyddiad cau ar gyfer derbyn ceisiadau yw **12:00 ganol dydd, 04/11/2024**. Dylid llenwi Ffurflenni Cais ar-lein drwy ein system e-recriwtio, y gellir ei chyrchu drwy ein gwefan: https://www.decymru-tan.gov.uk/gweithio-gyda-ni/swyddi-diweddaraf/ Os oes angen fersiwn papur, anfonwch e-bost at: personel@decymru-tan.gov.uk Dylai pob ymgeisydd mewnol sy'n gwneud cais wneud cais drwy ei borth, gan ddewis "Swyddi Gwag Cyfredol" o'r tab ar y chwith. Sylwch y bydd y system e-recriwtio yn hysbysu pob ymgeisydd o'r canlyniadau drwy law'r cyfeiriad e-bost a ddarparwyd wrth ymgeisio.

Mae'r holl ddogfennaeth ar gael yn Saesneg a Chymraeg ill dau ac rydym yn croesawu cyfathrebiadau yn y naill iaith â'r llall. Ni chaiff ceisiadau a gyflwynir yn Gymraeg eu trin yn llai ffafriol. Rhoddir cyfle i ymgeiswyr sy'n llwyddiannus yn y cam Rhestr Fer i gadarnhau eu dewis iaith ar gyfer cyfweliadau ac asesiadau (gan gynnwys gwaith papur, cyflwyniadau ar lafar a chwestiynau cyfweld). Bydd trefniadau yn cael eu cadarnhau yn dilyn y gwahoddiad i gyfweliad ac fe all gynnwys Cyfieithydd a Chyfieithu/neu Gyfieithu ar y Pryd.

**Mae GTADC yn credu fod gwir werth mewn cael gweithlu amrywiol ac rydym am fod yn rhagweithiol wrth annog ymgeiswyr o bob sector o'n cymuned i ymgeisio.**

We are a Living Wage Employer

disability confident COMMITTED